
Y Tŷ Mawr, Llanfleiddan

Ffotograff (H) Cyngor Bro Morgannwg

# Taith Gerdded 10 Dwyrain y Bont-faen

## I'r dwyrain i'r Bont-faen a Llanfleiddan

**Taith drwy gaeau a choetir ar draws tir cymharol wastad yw hon ar y cyfan, er bod y tir yn codi ryw ychydig am sbel weddol hir wrth nesáu at Stalling Down. Wedi cyrraedd pen y twyni hynny, mae golygfeydd godidog iawn i'w cael. Byddwch yn cerdded drwy dri phentref diddorol a thra gwahanol i'w gilydd sef - Aberthin, Saint Hilari a Llanfleiddan - a gwelwch dafarndai deniadol yn nau ohonynt. Bydd y daith hon a thaith gerdded 7 gyda'i gilydd yn mynd â chi bron pob cam o amgylch y Bont-faen. Mae fersiynau byrrach o'r daith ar gael hefyd.**

**Pellter** Prif daith: 6 milltir a hanner; teithiau byrrach: $5\frac{3}{4}$ a 3 milltir.


**Map** Explorer 151.

**Parcio** Mae meysydd Parcio yn y Bont-faen. Mae rhywfaint o le i barcio ym mhob un o'r pentrefi uchod.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus** Bysiau i'r Bont-faen

**Bwyd a Diod a Thoiledau** Maes parcio'r Bont-faen; tafarndai'r *Farmers* a'r *Hare and Hounds* (Aberthin); *y Bush* (Saint Hilari) a'r caffis wrth ymyl yr A48.

**MAN CYCHWYN** Ble bynnag y bo'n gyfleus i chi. Mae'r cyfeiriadau isod yn cychwyn ym Maes Parcio Neuadd y Dref, Y Bont-faen, Cyfeirnod Grid: SS 997747 ac yn dilyn llwybr cylch yn null y cloc.




### LLEOEDD O DDIDDORDEB

Yn ogystal â'r holl rannau diddorol o'r Bont-faen, byddwch yn cerdded heibio i'r lleoedd canlynol neu'n eu gweld yn amlwg yn ystod y daith.

**❶ TŶ'R HEN REILFFORDD RHWNG PONT-Y-CLUN A'R BONT-FAEN.**
Agorodd y rheilffordd hon ym 1865, a chludodd y trên cyntaf 50 tunnell o lo i'r Bont-faen. Daeth gwasanaethau ar gyfer teithwyr i ben ym 1964.

**❷ YR HEN REILFFORDD RHWNG Y BONT-FAEN AC ABERDDAWAN**
Agorodd y rheilffordd hon ym 1892, a Daniel Owen - a oedd yn byw yn Neuadd yr Onnen, Ystradowen yr adeg honno - a oedd yn rhannol gyfrifol am ei hariannu. Ni wnaeth fawr o elw erioed am ei bod yn rhedeg drwy ardaloedd amhoblog yn cludo glo a chalchfaen ran amlaf. Daeth gwasanaethau ar gyfer teithwyr i ben ym 1930 a rhedodd y trên nwyddau olaf ym 1932. Codwyd y cledrau ym 1947.

**❸ TŶ MAWR, ABERTHIN**
Mae'r adeilad rhestredig Gradd II hwn yn dyddio'n ôl i gyfnod y Dadeni ac mae wedi cadw llawer o nodweddion gwreiddiol tŷ o'r ail ganrif ar bymtheg.

**❹ STALLING DOWN**
Mae'r mynydd hwn yn sefyll yn fwy na 120 medr uwchben lefel y môr (400 troedfedd) a chewch olygfa fendigedig o'r fro gyfagos o'i gopa. Yn ôl pob sôn, bu brwydr ffyrnig yma rhwng Owain Glyndŵr a Harri IV rywbryd ar ddechrau'r bymthegfed ganrif (1401/1405) a chafodd llawer iawn o bobl eu lladd. Erbyn heddiw, mae'r darn gwyntog hwn o dir comin yn hafan i farcutwyr a phobl sy'n mynd â'u cŵn am dro.

**❺ Y CLWMP**
Plannwyd y Clwmp yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac am gyfnod roedd yn fan grogi gyhoeddus.

**❻ PENTREF AC EGLWYS SAINT HILARI**
Dyma bentref bach pert sy'n cynnwys eglwys ganoloesol hardd a thafarn (The Bush) o'r ail ganrif ar bymtheg. Cafodd yr eglwys ei chysegru i Saint Hilari o Boitiers gan y Normaniaid. Mae twlc mochyn crwn i'w weld hefyd ar dir un o dai'r pentref (Church Cottage)

**❼ TŶ MAWR LLANFLEIDDAN**
Adeilad rhestredig Gradd II o gyfnod y Frenhines Anne yw hwn. Cafodd y rhan fwyaf o'r tŷ ei adeiladu ym 1703 ar gyfer cyfreithiwr o'r enw Thomas Wilkins ond credir ei fod yn dyddio'n ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg. Mae blaen y tŷ'n rhyfeddol o gymesur.

**❽ CASTELL SANT QUENTIN**
Gilbert de Clare a ddechreuodd godi'r adeilad hwn yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg, ond am iddo gael ei ladd ym mrwydr Bannockburn ym 1314 nid yw erioed wedi'i gwblhau. Bu Owain Glyndŵr a Cromwell yn achosi difrod iddo yn eu tro, yna, daeth yn gartref i un o Arglwyddi Morgannwg. Cafodd y porthdy ei adfer yn ddiweddar gan gymdeithas henebion CADW.

### Y LLWYBR

Cychwynnwch â'ch cefn at fynedfa'r maes parcio, a cherddwch at lwybr troed yn y gornel bellaf ar y chwith. Dilynwch y llwybr hwn sy'n gyfochrog ag Afon Ddawan nes i chi gyrraedd pompren ar eich ochr dde. Croeswch honno i lôn, yna cymerwch y troad cyntaf ar y chwith ac ewch o dan y draphont. Croeswch y gamfa o'ch blaen a cherddwch ymlaen am ryw ganllath. Gwelwch eich bod yn cerdded ar olion yr hen reilffordd yn y fan honno ❶. Gwyrwch i'r chwith oddi ar gaeau chwarae'r ysgol gyfun leol ac ewch ymlaen at gamfa ddwbl. Croeswch honno ac ewch yn fwy neu lai i'r un cyfeiriad ar draws nifer o gaeau gan groesi camfeydd, pontydd, byrddau cerdded a phlociau camu. Byddwch yn dod at gamfa ar ôl croesi'r plociau camau. Ewch drosti a cherddwch i'r un cyfeiriad at gornel y cae. Trowch i'r dde yn y fan honno a cherddwch yn ôl ar draws y cae o gornel i gornel (sef llwybr yr Hawl Tramwy) hyd at fwlch yng nghornel y cae. Croeswch gae arall wedyn at gât mochyn. Cerddwch drwy'r cae nesaf, gyda'r berth ar eich ochr chwith nes i chi gyrraedd camfa arall wrth ochr gât. Ewch wedyn ar draws cae cul at gât mochyn arall, a gwelwch lwybr sydd yn amlwg yn cael ei ddefnyddio'n gyson. Dilynwch y llwybr hwnnw i Aberthin.

Trowch i'r dde wrth y brif heol a phan gyrhaeddwch y fan lle mae'r heol yn gwyro i'r dde rhwng dwy dafarn y pentref, trowch i'r chwith, a cherddwch ar hyd Heol Llanquian. Ymhen ychydig, gwelwch bostyn cyfeirbwynt ar y dde. Trowch i'r dde yn y fan honno a dilynwch lwybr sy'n arwain ar letraws i fyny'r rhiw o'r dde i'r chwith. Mae'n well dringo i Stalling Down ❹ ar hyd ffordd anuniongyrchol nid yn unig am ei bod yn llai serth ond am y cewch hefyd edrych yn ôl ar y cwm a phentref hardd Aberthin. Wrth i chi ddringo'n uwch, daw mwy o'r ardal i'r golwg a chewch olygfa fendigedig o diroedd tonnog y fro ogleddol yn y diwedd. Dilynwch y llwybr hwn am ryw 500 llath a cherddwch o dan y gwifrenni trydan. Ar ôl cyrraedd porfa'r comin, ewch yn eich blaen gan ddilyn llwybr ychydig yn uwch na'r rhedyn sy'n gwyro i'r dde bob yn dipyn. Gwelwch adeiladau fferm ar y chwith. Mae'r llwybr yn arwain i rodfa fferm a phan ddowch i'r fan honno, dylech droi i'r dde. Cyn bo hir, byddwch yn cyrraedd heol fach a chaffi.

Cerddwch ymlaen o'r fan honno i'r brif heol (A48) a chroeswch yn ddiogel wrth y drosffordd.

Ar ôl cyrraedd yr ochr ddeheuol, ewch ar hyd y slipffordd heibio i'r tŷ bwyta Indiaidd a chaffi arall. Trowch i'r dde bron yn unwaith a dilynwch lwybr cyhoeddus sy'n arwain i fyny llethr weddol ysgafn drwy lystyfiant trwchus i grib y bryn. Mae'n bosibl y cewch gip ar gofeb i lwmyn Morgannwg ar y chwith wrth i chi gerdded ymlaen ac os edrychwch chi'n ôl, gwelwch yr holl fryniau o amgylch Cwm Rhondda'n glir yn y pellter. Ar ôl cyrraedd y grib, byddwch yn dod at gylch o goed sy'n cael ei adnabod fel 'y Clwmp' ❺ a gwelwch fastiau darlledu ar y chwith. Ewch yn syth ymlaen i lawr y rhiw ar hyd llwybr caeëdig a chewch weld y Fro ddeheuol yn ymagor o'ch blaen a thŵr trawiadol eglwys Saint Hilari ❻ yn y tu blaen. Ewch ymhellach i lawr y rhiw heibio i 'The Glebe' ar y chwith nes i chi gyrraedd cyffordd. Trowch i'r dde yn y fan honno, i ganol y pentref ac ewch heibio i dafarn y Bush Inn. Dilynwch y ffordd o amgylch y dafarn a cherddwch i lawr rhiw serth â choed ar bob ochr iddi.

Trowch i'r dde wrth yr arwydd 'No Public Access' a dilynwch y llwybr cyhoeddus drwy'r goedwig. Mae'r llwybr yn arwain i lawr y rhiw at gamfa sy'n agor ar gae* (os ydych yn dilyn y daith gerdded fer, darllenwch y testun isod sydd wedi'i nodi â *). Gwelwch stablau ar y chwith. Cerddwch ar draws y cae heibio i ffrynt y stablau at gamfa ger llwybr sy'n arwain at dŷ (Y Bewpyr Newydd). Trowch i r dde, yna dilynwch y llwybr ar draws gwastad iawn am ryw $\frac{3}{4}$ milltir nes i chi gyrraedd Heol Sain Tathan yn y Bont-faen. (Bydd y daith wedi mynd â chi drwy arglawdd yr hen reilffordd rhwng y Bont-faen ac Aberddawan ❷).

Croeswch yr heol ac ewch yn fwy neu lai i'r un cyfeiriad ar hyd y fro lydan.

Cadwch y gweithfeydd chwalu carthion ar eich ochr chwith a chroeswch afon Ddawan wrth y bompren fach bert. Cerddwch i'r gorllewin ar draws gorlifdir yr afon at ddwy gamfa a'u croesi. Gwelwch dŵr yr eglwys ar y gorwel. Ar ôl croesi'r ail gamfa, trowch i'r dde er mwyn cyrraedd y brif heol i Lanfleiddan. Gyferbyn â'r fan honno, ychydig i'r chwith, gwelwch Dŷ Mawr Llanfleiddan ❼.

Dyma un o nifer o ffyrdd yn unig sy'n arwain yn ôl i ganol y dref. Trowch i'r dde ar y brif heol. Croeswch yr afon wrth y bont, yna trowch i'r chwith ac unwaith i gyfeiriad Mynydd y Garth ac i'r chwith eto bron yr un mor sydyn i Ffordd Greenfield. (Os ydych am weld Castell Sant Quentin ❽ bydd yn rhaid i chi barhau i ddringo llethr serth Mynydd y Garth). Trowch i'r dde wedyn i heol o'r enw 'St Quentin's Hill' a chyn bo hir, gwelwch arwydd am lwybr cyhoeddus a gât mochyn. Ewch drwy'r gât a dilynwch y llwybr sy'n gwyro i'r dde drwy dri chae nes i chi gyrraedd heol. Trowch i'r chwith i lawr y rhiw. Bydd yr heol yn mynd â chi heibio i Ysgol Gyfun isaf ddigon diolwg (a fydd yn cau cyn bo hir); heibio i Borth Deheuol y Dref; heibio i'r hen Ysgol Ramadeg sydd wedi'i hadnewyddu; heibio i'r ardd berlysiau newydd ac ymlaen i'r Stryd Fawr. Trowch i'r dde yn y fan honno, a gwelwch Neuadd y Dref ar y chwith.

## LLWYBR BYR

*Llwybr(au) Byrrach. Trowch i'r dde wrth y gamfa hon a chan gadw'r goedwig ar eich ochr dde ewch allan o'r cae dros gamfa arall. A'r goedwig yn union i'r dde, cerddwch ar draws cae hir at gamfa. Trowch i r dde yn y fan honno ac ewch i fyny rhiw nes i chi gyrraedd terfyn cae wedi'i farcio â choed. Ewch i'r cae nesaf drwy fwlch os mynnwch, am y gall y gamfa ar y chwith fod ychydig bach yn anodd ei dringo. Ewch ymlaen i ddringo'r rhiw wedyn gan wyro rywfaint i'r chwith nes i chi gyrraedd camfa ar ochr draw'r cae.


Yn y cae nesaf cerddwch ymlaen gan wyro ychydig i'r chwith ac ewch drwy fwlch yn y berth bellaf sydd wedi'i nodi â phostyn cyfeirbwynt. Cerddwch ymlaen yn fwy neu lai i'r un cyfeiriad drwy'r cae nesaf at gamfa gerrig yng nghornel y cae. Ar ôl dringo'r gamfa, byddwch yn dod i lôn gaeëdig. Trowch i'r dde, a cherddwch i lawr y rhiw at yr heol fawr. Trowch i'r chwith yn y fan honno, wedyn ymlaen drwy'r goleuadau traffig ac yn ôl i ganol y Bont-faen.

(Os cerddwch yn groes i'r cyfeiriad yn y teithlyfr - h.y. o'r Bont-faen a thrwy Lanfleiddan i'r Bewpyr Newydd, cewch ddod yn ôl ar hyd y llwybr byr hwn wedyn sydd ychydig dros 3 milltir yn unig).


Twlc Mochyn

Ffotograff (H) G.Woosnam

## LLEOLIAD Y DAITH GERDDED MEWN PERTHYNAS Â LLWYBR TREFTADAETH Y MILENIWM VALEWAYS




Mae Llwybr Treftadaeth y Mileniwm Valeways yn ymestyn am fwy na 100 cilomedr ac yn cwmpasu dros 6000 o flynyddoedd o hanes. Bydd yn ymlwybro drwy nifer o dirweddau prydferth iawn. O ben gogleddol y llwybr, mae golygfeydd ar draws holl ardal Blaenau Morgannwg, ac yn y de bydd y llwybr yn dilyn arfordir clogwynog trawiadol.

Mae'r Llwybr yn ymrannu'n 16 o ddarnau sy'n hawdd eu dilyn a gellwch gerdded pob un ohonynt mewn ychydig o oriau'n unig. Mae'r tir o gwmpas yn amrywiol, yn drawiadol yn aml ac yn llawn olion hanesyddol.

Os nad ydych erioed wedi ymweld â'r rhan hon o Gymru, byddwch wrth eich bodd yn cerdded drwy'r tiroedd isel ffrwythlon sy'n ffinio â'r Arfordir Treftadaeth godidog a'i draethau hardd. Mae'r llwybr yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol diddorol dros ben sy'n amrywio o siambrau claddu cynhanesyddol i gestyll, eglwysi a phlastai mawreddog.

Mae Valeways wedi cyhoeddi teithlyfr Llwybr Treftadaeth y Mileniwm. Mae'r llyfr lliwgar hwn yn disgrifio 16 rhan y daith gerdded ac yn cael ei gyflwyno mewn pecyn sydd hefyd yn cynnwys 16 o fapiau A3 cyfatebol. Cewch ei brynu oddi wrth Valeways am £8.49 sy'n cynnwys cludiant a phacio.


Y Tŷ Mawr a Chastell Sant Quentin

Ffotograff (H) Cyngor Bro Morgannwg


Tafarn Bush Inn Saint Hilari

Ffotograff (H) G.Woosnam


Golwg ar Aberthin

Ffotograff (H) Cyngor Bro Morgannwg

## NODWEDDION Y DAITH GERDDED

- **Hen Reilffordd**
- **Tai Mawrion**
- **Stalling Down**
- **Pentref Saint Hilari**
- **Castell Sant Quentin**
- **Tafarndai Deniadol**


Eglwys Saint Hilari

Ffotograff (H) G.Woosnam

## DILYNWCH Y GÔD CEFN GWLAD

- Byddwch yn ddiogel, cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Ewch â'ch sbwriel gartref, a gofalwch warchod bywyd gwyllt
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

make tracks with Valeways

Elusen gofrestredig yw Valeways sy'n cydweithio â chymunedau lleol er mwyn ailagor hen lwybrau a chreu rhwydwaith o deithiau cerdded cylch difyr ar draws Bro Morgannwg sy'n cysylltu trefi a phentrefi â'r wlad o'u hamgylch a mannau o ddiddordeb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr a roddodd yn hael o'u hamser er mwyn darparu'r daith gerdded hon i chi ei mwynhau.

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

**Partneriaeth Valeways** - Diolch o galon i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am barhau i'n cefnogi.

Ysbrydoli'r Fro creative RURAL COMMUNITIES Inspiring the Vale

PROJECT PART-FINANCED BY THE EUROPEAN UNION

WDA

Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

The Rural Community Action programme is facilitated by the Welsh Development Agency, which is a sponsored body of the Welsh Assembly Government

Hwyluswyd y rhaglen Weithredu dros Gymunedau Gwledig gan Awdurdod Datblygu Cymru, sy'n gorff noddedig o Lywodraeth Cynulliad Cymru

Valeways, Uned 7, Canolfan Mentrau Cymunedol y Barri, Heol Skomer, Y Barri CF62 9DA

Ffôn/ffacs: 01446 749000

E-bost: info@valeways.org.uk

Gwefan: http//www.valeways.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif 1062031 Cwmni Cofrestredig Rhif 333088

*Taith Gerdded 10, Dwyrain y Bont-faen*

# I'r dwyrain i'r Bont-faen a Llanfleiddan

Pellter: 6½ milltir (teithiau byrrach 5¾ a 3 milltir)


Tŷ Mawr, Aberthin

Ffotograff (H) Cyngor Bro Morgannwg

make tracks with Valeways